

Heddiw, byddwn yn rhoi sylw i'r canlynol.....

Cyd-destun polisi

Beth rydyn ni'n ei olygu wrth ddweud Gwaith Teg?

Pam mae Gwaith Teg yn bwysig?

Sut rydyn ni'n cyflawni? - ysgogiadau polisi a chymau gweithredu + heriau a chyfyngiadau

Gwaith Teg a'r Ddeddf

Cyd-destun Polisi.....yn ehangach na'r Ddeddf

Mae'r dull gweithredu'n tynnu ar waith y Comisiwn Gwaith Teg ar y pryd a'i Adroddiad 2019 [‘Gwaith Teg Cymru’](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd gyda llawer o'r argymhellion yn adroddiad Gwaith Teg Cymru ac wedi cynhyrchu [Adroddiad Cynnydd](#).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu [‘canllaw i Waith Teg’](#) - i wella dealltwriaeth o beth mae gwaith teg yn ei olygu; pam mae gwaith teg yn bwysig; a sut y gellir hyrwyddo a datblygu gwaith teg.

Mae pwyslais polisi ar Waith Teg yn cael ei adlewyrchu yng Nghenhadaeth Economaidd, Contract Economaidd a Chynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

[Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus](#)

Beth?

Gwaith Teg yw.....

“lle mae gweithwyr yn cael eu gwobrwyo’n deg, eu clywed a’u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu gwneud cynnydd mewn amgylchedd gwaith iach, cynhwysol lle mae hawliau’n cael eu parchu.”

**Legal
Rights**

**Safe,
Healthy
&
Inclusive**

**Security
&
Flexibility**

**Fair
Reward**

**Opportunity
&
Progression**

**Worker Voice &
Representation**

Pam? - 3 dadl dros Waith Teg



Gwaith teg - hanfodol i gyfiawnder cymdeithasol, llesiant a ffyniant



Y peth iawn i'w
wneud yn
foesol ac yn
foesegol



Gwell iechyd
corfforol a
meddyliol a
llesiant
ehangach



Gwella prosesau
recrwtio a chadw
staff; lleihau
ymadawyr ac
absenoldeb; gwell
perfformiad
sefydliadol

Sut? - Ysgogiadau Polisi a Chamau Gweithredu

Improve experience of work in devolved public services

Leverage our grants and procurement

Convene partners to promote, encourage and advocate for fair work and diffuse best practice

Support individuals with the skills and capabilities they need to access fair work

Influence reserved matters, through engaging with the UK Government and its agencies to promote Welsh interests.


➤ Lefel sector - sefydlu fforymau partneriaeth gymdeithasol yn y [Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol](#) a'r [Fforwm Manwerthu](#).

➤ Dimensiynau unigol Gwaith Teg - hyrwyddo'r defnydd o'r Cyflog Byw Gwirioneddol gwirfoddol a chodi ymwybyddiaeth o rôl undebau llafur.

➤ Lefel ehangach - Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a hyrwyddo ei [Chontract Economaidd](#) a'i [Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi](#) fel ffyrdd o hyrwyddo ymddygiadau busnes mwy cyfrifol.

Heriau i Ddatblygu ar Raddfa ac yn Gyflym

- **Pwerau (diffyg):** Mae hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol wedi'u cadw. Mae ein gallu i newid ymddygiad yn y sector preifat wedi'i gyfyngu i ysgogiadau 'meddal'.
- **Newid diwylliannol ac ymddygiadol:** Rydym yn gofyn am newidiadau hirdymor a pharhaus mewn diwylliannau gweithredu, ymddygiadau a ffyrdd o weithio. Nid yw newid ymddygiad ar raddfa fawr yn digwydd dros nos.
- **Cyfyngiadau o ran Adnoddau:** Adnoddau ariannol a dynol cyfyngedig – ni allwn gyflawni'r agenda hon heb gymorth partneriaid allanol.



Gwaith Teg a'r Ddeddf

- Nid yw'r Ddeddf yn deddfu ar gyfer safonau gwaith teg penodol. Byddai camau gweithredu o'r fath y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n helpu i wella llesiant a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae terfynau cymhwysedd deddfwriaethol yn fframio'r modd y caiff Gwaith Teg ei drin yn y Ddeddf:
 - dim ond cyfeiriadau at Waith Teg sydd ar wyneb y Ddeddf sy'n ymwneud â diwygio'r nod llesiant "Cymru lewyrchus" - mae "*Gwaith Teilwng*" yn cael ei ddisodli gan "*Gwaith Teg*".
 - Rhaid i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ystyried y newid i'r nod llesiant wrth adolygu neu bennu eu hamcanion llesiant.